# Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (y “Cynllun”)

## 1 Awst 2025 Datganiad Gweithredu

Tachwedd 2025

# 1. Rhagair

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwr sicrhau bod datganiad ar gael i'r cyhoedd ar-lein ("y Datganiad Gweithredu") ar Gynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (y 'Cynllun') o ran ei Ddatganiad o Egwyddorion Buddsoddi (y "DEB").

Diwygiwyd y DEB yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 1 Awst 2025, yn bennaf er mwyn adlewyrchu'r newid o ran yr Ymgynghorydd Buddsoddi, o Mercer i Schroders IM Limited, yn ogystal â'r newid sylweddol sydd wedi'i wneud yn y strategaeth fuddsoddi. Daeth y DEB hwn i rym ar 29 Hydref 2024.

Gellir dod o hyd i gopi o'r DEB cyfredol wedi'i lofnodi a'i ddyddio 29 Hydref 2024 hwn ar gael ar y wefan hon:

https://www.aber.ac.uk/cy/hr/info-staff/employment/pensions/

Mae'r Datganiad Gweithredu hwn yn cwmpasu blwyddyn y Cynllun, sef rhwng 1 Awst 2024 a 31 Gorffennaf 2025, ("Blwyddyn y Cynllun"), er bod y wybodaeth am ystadegau pleidleisio ac ymgysylltu yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2024 a 30 Mehefin 2025. Mae'n datgan:

- Sut mae polisïau'r Ymddiriedolwr ar stiwardiaeth wedi cael eu dilyn dros Flwyddyn y Cynllun; a'r
- Y pleidleisiau a wnaed gan yr Ymddiriedolwr, neu ar ei ran, yn ystod Blwyddyn y Cynllun, gan gynnwys y pleidleisiau mwyaf arwyddocaol ac unrhyw adegau pan ddefnyddiwyd pleidleisiwr dirprwyol yn ystod Blwyddyn y Cynllun

Mae'r canllawiau diweddaraf ("y **Canllawiau**") oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau ('**DWP**') yn annog Ymddiriedolwr y Cynllun i arddel ei polisi stiwardiaeth yn briodol, gan gynnwys pleidleisio ac ymgysylltu, a gofnodir yn DEB y Cynllun. Gyda chymorth Rheolwr Ymddiriedol y Cynllun, y gwnaeth yr Ymddiriedolwr ddirprwyo gwaith gweithredu ei bolisi Stiwardiaeth iddo, fe baratowyd y Datganiad Gweithredu hwn i ddarparu'r manylion am sut mae'r Ymddiriedolwr wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol y DWP.

Mae'r Ymddiriedolwr yn defnyddio gwasanaeth Rheolwr Ymddiriedol Schroders IM Limited fel ei Reolwr Buddsoddi a'i Gynghorydd (y cyfeirir ato fel y '**Rheolwr Ymddiriedol**' yn y Datganiad Gweithredu). Gall y Rheolwr Ymddiriedol benodi rheolwyr buddsoddi eraill (y cyfeirir atynt fel '**Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol**') i reoli rhan o asedau'r Cynllun, ac yn gyffredinol, gwneir buddsoddiadau drwy law'r rheolwyr hyn drwy gronfeydd ar y cyd, lle mae buddsoddiadau'r Cynllun yn cael eu cyfuno â buddsoddiadau buddsoddwyr eraill.

Mae copi o'r Datganiad Gweithredu hwn ar gael ar y wefan hon:

https://www.aber.ac.uk/cy/hr/info-staff/employment/pensions/

## 2. Sut mae polisïau'r Ymddiriedolwr ar stiwardiaeth wedi cael eu dilyn dros Flwyddyn y Cynllun

Yn unol â’r disgrifiad yn y DEB, mae’r Ymddiriedolwr yn cynnal ei stiwardiaeth drwy ddirprwyo'r gweithgareddau pleidleisio ac ymgysylltu i'r Rheolwr Ymddiriedol. Mae'r Ymddiriedolwr yn cymryd y cyfrifoldeb am adolygu dulliau a pholisïau stiwardiaeth y Rheolwr Ymddiriedol yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau ac amcanion yr Ymddiriedolwr. Mae copi o DEB y Cynllun wedi'i roi i'r Rheolwr Ymddiriedol ac mae disgwyl iddo ddilyn polisïau buddsoddi'r Ymddiriedolwr (gan gynnwys stiwardiaeth) wrth ddarparu gwasanaethau Rheoli Ymddiriedol.

Mae'r Rheolwr Ymddiriedol yn gweithredu ei weithgareddau stiwardiaeth ei hun yn unol â Glasbrint Ymgysylltu Schroders, sy'n pennu chwe thema fras i’w perchnogi’n weithredol: Newid yn yr Hinsawdd, Cyfalaf Naturiol a Bioamrywiaeth, Hawliau Dynol, Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Cyfalaf Dynol, ac Amrywioldeb a Chynhwysiant. O'r rhain, mae'r Rheolwr Ymddiriedol wedi dewis **Newid yn yr Hinsawdd**, **Cyfalaf Naturiol a Bioamrywiaeth**, a **Hawliau Dynol** i ganolbwyntio arnynt wrth gynnal ei stiwardiaeth ar ran y Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl y bydd gweithgareddau stiwardiaeth y Rheolwr Ymddiriedol yn arwain at well rheolaeth ar y risgiau a’r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, a'r hinsawdd, a disgwylir y byddant yn gwella canlyniadau ariannol hirdymor y Cynllun. Felly, mae'r Ymddiriedolwyr wedi gosod eu blaenoriaethau stiwardiaeth i gyd-fynd â blaenoriaethau’r Rheolwr Ymddiriedol.

Mae'r Rheolwr Ymddiriedol wedi llofnodi *Cod Stiwardiaeth y DU* sy'n gosod safonau uchel i'r rhai sy'n buddsoddi arian ar ran pensiynwyr a chynilwyr Prydain. Mae Cod Stiwardiaeth y DU yn disgrifio stiwardiaeth fel "*dyrannu, rheoli a goruchwylio cyfalaf mewn modd cyfrifol i greu gwerth hirdymor ... gan arwain at fanteision cynaliadwy i'r economi, yr amgylchedd a’r gymdeithas.*" Felly, mae gweithgareddau stiwardiaeth y Rheolwr Ymddiriedol ar ran yr Ymddiriedolwr yn cwmpasu amrywiaeth o offer, gan gynnwys integreiddio ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu i’r portffolio, ymchwilio i reolwyr a’u dethol, monitro metrigau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu’r portffolio, a phleidleisio ac ymgysylltu.

Yn rhan o’r monitro parhaus ar sut mae'r Rheolwr Ymddiriedol (RhY) wedi gweithredu polisi stiwardiaeth yr Ymddiriedolwr, mae’r Ymddiriedolwr wedi adolygu diweddariadau chwarterol y RhY ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ac Adroddiad Blynyddol y RhY ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn ystod Blwyddyn y Cynllun. Mae'r diweddariadau chwarterol ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn caniatáu i'r Ymddiriedolwr fonitro’r nodweddion hyn o bortffolio y Cynllun a thrwy hynny asesu sut mae’r Rheolwr Ymddiriedol yn dyrannu, rheoli a goruchwylio cyfalaf y Cynllun. Ar ben hynny, mae'r adroddiad chwarterol hefyd yn manylu ar weithgareddau stiwardiaeth gan gynnwys y gweithgareddau pleidleisio ac ymgysylltu a wnaethpwyd gan y Rheolwr Ymddiriedol ar ran yr Ymddiriedolwr. Mae Adroddiad Blynyddol y RhY ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu FM yn manylu ar wahanol feysydd sy'n ymwneud â sut mae’r Rheolwr Ymddiriedol wedi ymgorffori’r materion hyn o fewn y gweithgareddau buddsoddi a stiwardiaeth dros y flwyddyn galendr flaenorol.

Mae'r Ymddiriedolwr wedi’i fodloni bod y polisi stiwardiaeth a amlinellir yn y DEB wedi'i weithredu’n dda dros y flwyddyn, a bod y Rheolwr Ymddiriedol wedi rhoi ystyriaeth i bolisi stiwardiaeth a blaenoriaethau’r Ymddiriedolwr yn rhan o'i weithgareddau stiwardiaeth ac wrth ddethol rheolwyr dros Flwyddyn y Cynllun. Dyma rai enghreifftiau o’r dystiolaeth am hynny:

- Mae'r Rheolwr Ymddiriedol yn dal i ymgorffori ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, llywodraethu a materion hinsawdd trwy’r sgoriau MSCI a SustainEx, ac i roi eithriadau ar waith yn ei gronfa ecwiti a reolir yn fewnol (Cronfa Ecwiti Arallgyfeiriedig Fyd-eang) yn ystod y broses ddethol gwarannau sy'n cynnwys meini prawf Grŵp Schroders, gan gynnwys Torwyr Normau Byd-eang UNGC, arfau dadleuol, a glo ynni yn ogystal ag eithriadau ychwanegol fel Tybaco a Gamblo ayyb, fel bod y gronfa ecwiti hon, a reolir yn fewnol, yn fwy cynaliadwy. Mae hyn yn sicrhau bod buddsoddiadau'r Cynllun yn cyd-fynd yn nes â blaenoriaethau stiwardiaeth yr Ymddiriedolwr, gan fod y buddsoddiadau eithriedig hyn yn cael eu gweld yn gyffredinol yn rhai sy’n achosi niwed sylweddol i'r amgylchedd a’r gymdeithas.
- Mae ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu wedi’u hymgorffori ym mhob rhan o'r portffolio, ac mae Rheolwr Buddsoddi Sylfaenol a phartïon i gontractau wedi’u pennu ym mhortffolios *Growth, Cashflow Matching Credit* ac *LDI* y Cynllun.
- Drwy ymchwil gan reolwyr fe ddaethpwyd o hyd i gronfa ragfantoli ac iddi amcanion cynaliadwyedd sydd wedi'i chynnwys yn y portffolio cronfeydd amgen hylifol. Mae'r gronfa hon yn mynd y tu hwnt i ystyried

risgiau cynaliadwyedd yn unig ac mae’n ati’n weithredol i hyrwyddo amcanion amgylcheddol a chymdeithasol.

- Gwaith gyda'r rheolwr credyd gweithredol craidd i wella eu mandad i ganolbwyntio’n benodol ar drawsnewid er budd yr hinsawdd. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno targed sero net ar lefel y strategaeth.
- Asesiad blynyddol ar sgoriau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu’r Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol yn ôl fframwaith mewnol cynhwysfawr ar gyfer asesu’r ffactorau hynny. Mae rheolwyr â sgoriau is yn cael eu categoreiddio naill ai’n Ymgysylltu Coch neu’n Eithrio Coch, sy'n gofyn am ymgysylltu pellach i wella eu sgôr, neu eu heithrio ar sail eu perfformiad gwael o ran ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu. Defnyddiwyd y sgoriau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu hefyd i bennu'r meysydd ymgysylltu â’r Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol ar draws y gwahanol flaenoriaethau ymgysylltu.
- Buddsoddi rheolaidd a diwydrwydd dyladwy gweithredol ar y Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol i fonitro’r polisïau pleidleisio ac ymgysylltu o ran buddsoddiadau'r Cynllun.
- Yn ogystal â’r adroddiadau rheolaidd, mae'r Rheolwr Ymddiriedol wedi datblygu ei adroddiadau ar ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu i ddarparu enghreifftiau o bleidleisio ac ymgysylltu i'r Ymddiriedolwr, sy’n hwyluso adolygiad mwy rheolaidd trwy gydol y flwyddyn ar weithgareddau stiwardiaeth y Rheolwr Ymddiriedol a'r Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol. Yn ogystal, mae'r adroddiadau chwarterol hefyd yn cynnwys tudalennau "ffocws" i gyfleu pynciau cyfoes a deunydd addysgol ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu i’r Ymddiriedolwr, e.e. sut mae’r ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn cael eu hymgorffori mewn categorïau penodol o asedau.
- Datblygu metrig bioamrywiaeth NatCapEx i'w ddefnyddio fel offeryn ymgysylltu ac i ddarparu gwell dealltwriaeth o fod yn agored i risgiau sy'n gysylltiedig â byd natur.

O ystyried yr ystadegau pleidleisio a'r ymddygiad a nodir yn y Datganiad Gweithredu hwn, ynghyd â'r gweithgaredd ymgysylltu a gynhaliwyd ar ran yr Ymddiriedolwr yn ystod Blwyddyn y Cynllun o fewn y portffolios *Growth, Cashflow Matching Credit* ac *LDI*, mae'r Ymddiriedolwr yn falch o adrodd bod y Rheolwr Ymddiriedol a'r Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol wedi dangos lefelau uchel o bleidleisio ac ymgysylltu yn unol â'u polisi stiwardiaeth.

Yn benodol, nododd yr Ymddiriedolwr:

- Fod pob rheolwr wedi dangos lefelau uchel o weithredu ar hawliau pleidleisio, lle’r oedd pleidleisio yn berthnasol.
- Lle nad oedd hawliau pleidleisio ynghlwm wrth y daliadau, fod y Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol wedi dangos eu bod wedi cynnal lefel dda o weithgarwch ymgysylltu â'r cwmnïau sylfaenol dros Flwyddyn y Cynllun.
- Bod heriau i’r rheolwyr wedi digwydd, ac fe welir hynny mewn pleidleisiau a wnaed gan y Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol yn erbyn y rheolwyr.
- Bod y Rheolwr Ymddiriedol wedi cynnal lefel uchel o weithgareddau ymgysylltu gyda'r Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol, gan ganolbwyntio ar feysydd sy’n tanberfformio a dyraniadau materol ar draws tair blaenoriaeth ymgysylltu wahanol.
- Bod y Rheolwr Ymddiriedol hefyd wedi cynnal lefel uchel o ymgysylltu â gwahanol gyrff llywodraethu ar gyfer y mandad Rhagfantoli Rhwymedigaethau i sicrhau bod rhaglen rhagfantoli rhwymedigaethau’r Cynllun yn dal i fod yn gadarn yn sgil digwyddiadau Argyfwng Giltiau Hydref 2022. Ar ben hynny, rhoddodd y Rheolwr Ymddiriedol fewnbwn i'r cyrff llywodraethu hynny i sicrhau eu bod yn parhau i gyflawni canlyniadau gwell byth i'w cleientiaid, gan gynnwys y Cynllun.

**O ystyried y gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod Blwyddyn y Cynllun a thrwy baratoi'r Datganiad Gweithredu hwn, mae'r Ymddiriedolwr yn credu ei fod wedi gweithredu yn unol â Chanllawiau'r DWP dros Flwyddyn y Cynllun.**

# 3. Pleidleisio yn ystod Blwyddyn y Cynllun

Mae'r Ymddiriedolwr wedi dirprwyo cyfrifoldeb am bleidleisio ar ei ran i'r Rheolwr Ymddiriedol a'r Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf o hawliau pleidleisio sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau'r Cynllun yn berthnasol i'r gwarannau sylfaenol o fewn y cronfeydd ar y cyd a reolir gan y Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol. Mewn cyfarfod cyffredinol o gwmni sy'n cyhoeddi'r gwarannau hyn, mae'r Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol yn arfer eu hawliau pleidleisio yn unol â'u polisïau eu hunain, ac mae'n bosib y bydd y Rheolwr Ymddiriedol wedi dylanwadu arnynt.

Mae'r cronfeydd ar y cyd eu hunain yn aml yn rhoi hawliau penodol ynghylch pleidleisio neu bolisïau. Mae'r hawliau hyn yn cael eu harfer gan y Rheolwr Ymddiriedol ar ran yr Ymddiriedolwr, yn unol â pholisi stiwardiaeth yr Ymddiriedolwr.

### Pleidleisio gan y Rheolwr Ymddiriedol

Dros y flwyddyn hyd at 30 Mehefin 2025, ynghylch buddsoddiadau cronfeydd ar y cyd y cleientiaid[1], pleidleisiodd y Rheolwr Ymddiriedol ar 120 o benderfyniadau mewn 17 o gyfarfodydd. Pleidleisiodd y Rheolwr Ymddiriedol yn erbyn y rheolwyr ar 12 penderfyniad (10.0% o gyfanswm y penderfyniadau) ac ymataliodd ar 47 o benderfyniadau (39.2% o gyfanswm y penderfyniadau). Roedd pynciau'r pleidleisio yn cwmpasu ystod o feysydd, gan gynnwys cyfansoddiad byrddau gweithredol, prosesau rheoli buddsoddiadau, dogfennaeth ar gronfeydd, deiliadaeth archwilwyr, a chostau cronfeydd. Nododd yr Ymddiriedolwr fod y pleidleisio a wnaed gan y Rheolwr Ymddiriedol a ddangosir yn yr adran hon yn ymwneud â rheoli'r cronfeydd ar y cyd eu hunain yn hytrach na gwarannau'r portffolios sylfaenol, ond mae ystadegau pleidleisio Cronfa Arallgyfeiriedig Fyd-eang Schroders Life, a gynhelir gan dîm Perchnogaeth Weithredol Schroders yn ymwneud â'r gwarannau sylfaenol lle mae hawliau pleidleisio ynghlwm.

### Pleidleisio gan y Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol

#### Y Pleidleisiau Mwyaf Arwyddocaol

Rhaid bodloni'r meini prawf isod er mwyn i bleidlais gael ei gweld yn 'arwyddocaol':

1. Rhaid iddi ymwneud â **Chronfa Ecwiti Arallgyfeiriedig Fyd-eang Schroders Life**
2. Rhaid iddi gael ei diffinio'n arwyddocaol gan y Rheolwr Ymddiriedol; ac
3. Mae'n rhaid iddi ymwneud â themâu blaenoriaeth stiwardiaeth yr Ymddiriedolwr

Mae'r **Cronfa Ecwiti Arallgyfeiriedig Fyd-eang Schroders Life** yn cyfrif am gyfran sylweddol o bortffolio *Growth Asset* y Cynllun ac felly mae'n cyfrif am y rhan fwyaf o fuddsoddiadau'r Cynllun mewn asedau ecwiti – ac ecwiti yw'r prif ddosbarth o asedau sy'n rhoi hawliau pleidleisio. Ar ben hynny, o fewn portffolio *Growth Asset* y Cynllun, dyma'r unig gronfa lle y mae gan y Rheolwr Ymddiriedol gyfrifoldeb am ddewis gwarannau. Am y rhesymau hyn, mae'r gweithgarwch pleidleisio sy'n gysylltiedig â'r gwarannau yn y gronfa hon yn arbennig o arwyddocaol i'r Cynllun.

Tîm Perchnogaeth Weithredol Schroders sy'n arfer yr hawliau pleidleisio, yn unol â Chanllawiau Pleidleisio Byd-eang Schroder (a ddangosir yn yr atodiad), sy'n dilyn arweiniad **Glasbrint Ymgysylltu** Schroders. Mae'r Rheolwr Ymddiriedol o'r farn y dylai pob penderfyniad a wnaed drwy bleidleisio yn erbyn argymhellion y bwrdd gael ei gategoreiddio'n bleidlais arwyddocaol. Yn gyffredinol, nid yw'r Rheolwr Ymddiriedol yn rhoi gwybod i'r cwmnïau am ei fwriadau pleidleisio o ran penderfyniadau'r cyfranddalwyr. O ran y camau nesaf ar ôl pleidlais, os yw'r bleidlais yn llwyddiannus, bydd tîm Schroders fel arfer yn monitro'r cynnydd yn agos. Os yw'r pleidleisiau'n aflwyddiannus, bydd Schroders fel arfer yn ceisio ymgysylltu â'r cwmnïau cyn eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.

O'r pleidleisiau sy'n bodloni'r meini prawf uchod, mae'r Ymddiriedolwr wedi dewis un bleidlais sy'n ymwneud â phob un o'r themâu blaenoriaethol sydd, yn ei dyb ef, fwyaf perthnasol i werth hirdymor y buddsoddiadau. Diffinnir y pleidleisiau hyn fel 'y pleidleisiau mwyaf arwyddocaol' ac, yn unol â chanllawiau'r DWP, mae'r Ymddiriedolwr wedi rhoi gwybod i'r Rheolwr Ymddiriedol am y diffiniad hwn o'r 'pleidleisiau mwyaf arwyddocaol'. Mae pob un o'r pleidleisiau mwyaf arwyddocaol dros y Flwyddyn Gynllun hon wedi'u nodi isod.

---

[1] Mae'r ystadegau pleidleisio a ddarperir yn ymwneud â phortffolio *Model Growth* y Rheolwr Ymddiriedol sydd, yn ein barn ni, yn ddirprwy addas ar gyfer y buddsoddiadau cronfeydd ar y cyd a ddelir gan y cynllun.

**NEWID YN YR HINSAWDD –** Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Meta Platforms Inc. ar 29 Mai 2025, cefnogodd Schroders gynnig gan gyfranddaliwr yn galw am alinio'r gweithgareddau lobïo i gyd-fynd ag ymrwymiad y cwmni i gyrraedd sefyllfa allyriadau sero net erbyn 2030. Mae'r bleidlais hon, a fwriwyd yn erbyn rheolwyr, yn adlewyrchu cred Schroders fod cyfranddalwyr yn elwa o ddeall sut mae lobïo yn cefnogi amcanion i'r hinsawdd yn yr hirdymor. Ni chymeradwywyd y cynnig, yn yr un modd â'r hyn sydd wedi digwydd i cynigion eraill ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn Meta, lle y cawsant gefnogaeth sylweddol gan gyfranddalwyr annibynnol ond na chawsant eu derbyn oherwydd strwythur cyfranddaliadau'r cwmni, sy'n rhoi rheolaeth mwyafrif pleidleisio i Mark Zuckerberg.

**CYFALAF NATURIOL A BIOAMRYWIAETH -** Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Amazon.com Inc. ar 21 Mai 2025, pleidleisiodd Schroders dros gynnig yn gofyn i'r cwmni ddatgelu faint o ddeunydd pecynnu plastig hyblyg na ellir ei ailgylchu mae'n ei ddefnyddio, sydd yn ddeunydd sydd wedi'i feirniadu'n eang am ei effaith amgylcheddol, yn enwedig ar ecosystemau morol. Credir mai Amazon yw un o'r cwmnïau sy'n defnyddio deunydd pecynnu plastig hyblyg fwyaf drwy'r byd, ond nid yw'n datgelu faint o dunellau a ddefnyddir. Roedd Schroders yn gweld y byddai'n fuddiol cael adroddiad manylach er tryloywder, ac er mwyn lleihau risgiau amgylcheddol, yn enwedig i ecosystemau morol. Roedd y rheolwyr yn gwrthwynebu'r cynnig, gan ddadlau bod yr adroddiadau presennol yn ddigonol. Er na phasiwyd y penderfyniad, nododd Schroders fod Amazon wedi adrodd bod y deunydd pecynnu plastig a ddefnyddiwyd ganddo wedi gostwng fwy na 25% yn 2024.

**HAWLIAU DYNOL –** Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Johnson and Johnson ar 24 Mai 2025, cefnogodd Schroders benderfyniad gan gyfranddalwyr dan arweiniad Mercy Investment Services, buddsoddwr cymdeithasol-gyfrifol, a alwai am asesiad effaith ar hawliau dynol (HRIA) ynghylch gweithrediadau sy'n ymwneud â mynediad at feddyginiaethau. Er bod gan J brosesau diwydrwydd dyladwy ar waith, codwyd pryderon ei bod hi'n bosib bod ei weithgareddau lobïo yn gallu tanseilio ei ymrwymiadau ar fynediad. Cefnogodd Schroders y cynnig, sy'n cyd-fynd â safonau hawliau dynol rhyngwladol, gan gredu y byddai'n gwella tryloywder, yn lleihau risgiau i enw da a risgiau rheoleiddio, ac yn diogelu gwerth i'r cyfranddalwyr yn yr hirdymor. Yn anffodus, ni phasiwyd y penderfyniad.

### Crynodeb o'r Ystadegau Pleidleisio

Dim ond daliadau ecwiti'r Cynllun a rhai daliadau amgen (cronfeydd rhagfantoli) sy'n buddsoddi mewn asedau sydd â hawliau pleidleisio ynghlwm. Isod mae'r ystadegau pleidleisio dros y 12 mis hyd at 30 Mehefin 2025 ar gyfer y cronfeydd mwyaf perthnasol a ddelir ar ran yr Ymddiriedolwr lle'r oedd hawliau pleidleisio yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae rhai o ddaliadau ecwiti y Cynllun wedi'u buddsoddi trwy Gronfeydd a Fasnachir drwy Gyfnewidfa (ETF) lle mae pleidleisio hefyd yn berthnasol. Er hynny, o ystyried nad ydynt yn ddyraniadau asedau strategol o fewn portffolio twf y Cynllun, ac nad oes gan yr Ymddiriedolwr fawr ddim dylanwad ar ddull pleidleisio ac ymgysylltu darparwyr ETF, mae'r Ymddiriedolwr wedi dewis peidio â chynnwys ystadegau pleidleisio'r cronfeydd ETF yn y Datganiad Gweithredu hwn. Yn lle hynny, mae polisïau pleidleisio ac ymgysylltu'r darparwyr ETF wedi'u cynnwys yn yr Atodiad.

| Cronfeydd Ecwiti | Cronfa Ecwiti Arallgyfeiriol Fyd-eang Schroders Life | Cronfa Ecwiti Lazard US Small Cap |
|---|---:|---:|
| Cyfanswm y cyfarfodydd lle'r oedd hawl pleidleisio | 356 | 427 |
| Cyfanswm y penderfyniadau lle'r oedd hawl pleidleisio | 5,049 | 3,753 |
| O'r penderfyniadau lle'r oedd hawl pleidleisio, % y penderfyniadau y bwriwyd pleidlais arnynt | 91% | 99% |
| O'r penderfyniadau y pleidleisiwyd arnynt, % yn pleidleisio gyda'r rheolwyr | 87% | 85% |
| O'r penderfyniadau y pleidleisiwyd arnynt, % yn pleidleisio yn erbyn y rheolwyr | 13% | 15% |
| O'r penderfyniadau y pleidleisiwyd arnynt, % yr ymataliwyd arnynt | 0% | 0% |
| O'r penderfyniadau y pleidleisiwyd arnynt, % yn pleidleisio yn groes i argymhelliad y cynghorydd dirprwyol (os yw'n berthnasol) | 10% | 7% |

| | | |
|---|---|---|
| Y gwasanaeth pleidleisio drwy ddirprwy a ddefnyddiwyd | GL | GL & ISS |

Sylwer:

- Y gwasanaethau pleidleisio drwy ddirprwy a ddefnyddiwyd yw Glass Lewis ("GL"), Institutional Shareholder Services ("ISS") a ZD Proxy Shareholder Services Ltd. ("ZD").
- Mae Schroders Investment Management (wrth arfer hawliau pleidleisio ar gyfer y Gronfa Ecwiti Arallgyfeiriedig Fyd-eang) yn defnyddio Glass Lewis ("GL") ar gyfer gwasanaethau pleidleisio drwy ddirprwy ac yn cael ymchwil Meincnodi oddi wrth ISS. Yn ogystal ag ymchwil ISS, mae Schroders yn derbyn argymhellion gan GL yn unol â'u canllawiau pwrpasol eu hunain. Mae hyn yn cael ei ategu gan ddadansoddi a wneir gan eu harbenigwyr mewnol ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a, lle bo'n briodol, fe’i gwneir drwy gyfeirio at ddadansoddwyr ariannol a rheolwyr portffolios.
- Gall yr ystadegau pleidleisio a ddarperir fod ychydig yn wahanol, yn dibynnu ar yr union gyfansoddiad sydd gan y Cynllun.
- Efallai na fydd y ffigurau yn dod i 100% i gyd oherwydd amryw resymau, megis: diffyg argymhelliad gan reolwyr; sefyllfaoedd lle mae pleidleisiau ar agenda wedi'u rhannu; mae mwy nag un bleidlais wedi’i chynnal yn yr un cyfarfod lle y pleidleisiwyd mewn ffyrdd gwahanol; neu mae pleidlais 'Ymatal' yn cael ei hystyried yn bleidlais yn erbyn y rheolwyr.
- Mae'r gronfa ecwiti newydd, *Lazard US Small Cap*, wedi'i chyflwyno i'r portffolio *Growth* dros Flwyddyn y Cynllun, er bod y data ar bleidleisio yn ymwneud â’r 12 mis hyd at 30 Mehefin 2025, sy’n dod oddi wrth y rheolwyr buddsoddi yn unol â chanllawiau PLSA.

| **Cronfeydd Amgen** | **Lumyna Marshall Wace - Cronfa TOPS (Marchnad-Niwtral)** | **Lumyna Marshall Wace - Cronfa TOPS Environmental Focus (Marchnad-Niwtral)** | **Cronfa North Rock** | **JP Morgan Cronfa Europe Equity Absolute Alpha** | **BlackRock Cronfa Systematic Total Alpha** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y cyfarfodydd lle’r oedd hawl pleidleisio | 171 | 171 | 449 | 175 | 1,852 |
| Cyfanswm y penderfyniadau lle’r oedd hawl pleidleisio | 4,769 | 2,490 | Data heb ei ddarparu | 3,034 | 17,375 |
| O'r penderfyniadau lle’r oedd hawl pleidleisio, % y penderfyniadau y bwriwyd pleidlais arnynt | 100% | 100% | 100% | 98% | 94% |
| O'r penderfyniadau y pleidleisiwyd arnynt, % yn pleidleisio gyda'r rheolwyr | 80% | 60% | 100% | 96% | 93% |
| O'r penderfyniadau y pleidleisiwyd arnynt, % yn pleidleisio yn erbyn y rheolwyr | 6% | 5% | 0% | 4% | 7% |
| O'r penderfyniadau y pleidleisiwyd arnynt, % yr ymataliwyd arnynt | 14% | 35% | 0% | 0% | 0% |
| O'r penderfyniadau y pleidleisiwyd arnynt, % yn pleidleisio yn groes i argymhelliad y cynghorydd | 5% | 5% | 0% | 1% | 0% |

| Cronfeydd Amgen | Lumyna Marshall Wace - Cronfa TOPS (Marchnad-Niwtral) | Lumyna Marshall Wace - Cronfa TOPS Environmental Focus (Marchnad-Niwtral) | Cronfa North Rock | JP Morgan<br>Cronfa Europe Equity Absolute Alpha | BlackRock<br>Cronfa Systematic Total Alpha |
|---|---|---|---|---|---|
| dirprwyol (os yw'n berthnasol) | | | | | |
| Darparwr y gwasanaeth pleidleisio drwy ddirprwy | GL | GL | GL | ISS | Tîm Stiwardiaeth Buddsoddi BlackRock (BIS) ac ISS. |

Sylwer:

– Gall yr ystadegau pleidleisio a ddarperir fod ychydig yn wahanol, yn dibynnu ar yr union gyfansoddiad sydd gan y Cynllun.

– Mae Lumyna Marshall Wace wedi cynnwys pleidleisiau a ddaliwyd yn ôl yn y pleidleisiau yr ymataliwyd arnynt (er mwyn cyd-fynd â thempled PLSA a ddefnyddiwyd gan y rheolwyr eraill), er bod gwahaniaethau rhwng pleidleisiau a ddaliwyd yn ôl a phleidleisiau yr ymataliwyd arnynt.

– Mae’r ffigurau wedi’u talgrynnu ond efallai na fyddant yn dod i 100% i gyd oherwydd amryw resymau, megis: diffyg argymhelliad gan reolwyr; sefyllfaoedd lle mae pleidleisiau ar agenda wedi'u rhannu; lle y cynhaliwyd mwy nag un bleidlais yn yr un cyfarfod lle y pleidleisiwyd mewn ffyrdd gwahanol; neu mae pleidlais 'Ymatal' yn cael ei hystyried yn bleidlais yn erbyn y rheolwyr.

Cyflwynwyd pedair cronfa amgen hylifol newydd, **JP Morgan European Equity Absolute Alpha**, **BlackRock Systematic Total Alpha**, cronfa **AQR Apex** a chronfa **AQR Alternative Trend** i'r portffolio *Growth* dros Flwyddyn y Cynllun, er bod y data pleidleisio ar gronfeydd JP Morgan a BlackRock yn ymwneud â’r 12 mis hyd at 30 Mehefin 2025, yn dod o’r rheolwyr buddsoddi yn unol â chanllawiau PLSA. Nid yw AQR yn caniatáu i’r data ar bleidleisio gael ei rannu'n gyhoeddus.

**Mae'r Ymddiriedolwr wedi’u bodloni bod y gweithgareddau pleidleisio ac ymgysylltu a wneir gan y Rheolwr Ymddiriedol a'r Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol yn cyd-daro â'r blaenoriaethau stiwardiaeth a bennwyd yn ystod Blwyddyn y Cynllun, felly mae'r Ymddiriedolwr yn credu ei fod wedi gweithredu'r Polisi Stiwardiaeth a nodir yn DEB y Cynllun yn foddhaol.**

## Atodiad 1 – Polisïau ar Faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, Pleidleisio ac Ymgysylltu

Gellir dod o hyd i ddolenni cyswllt â'r polisïau pleidleisio a buddsoddi cyfrifol ar gyfer y Rheolwr Ymddiriedol a'r Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol i ddaliadau'r Cynllun yma:

| Rheolwr Buddsoddi a Rheolwr Buddsoddi Sylfaenol | Polisi Pleidleisio ac Ymgysylltu |
|---|---|
| **Schroders Solutions** | https://mybrand.schroders.com/m/6197143c263420f5/original/Schroders-Group-Sustainable-Investment-Policy.pdf<br>https://mybrand.schroders.com/m/75fa1cd8dd188c3b/original/613798_SC_Listed-Assets-Blueprint-Report-_Digital_16_9_V12.pdf |
| **AQR** | https://www.aqr.com/-/media/AQR/Documents/ESG/AQR-Proxy-Voting-Policy.pdf?sc_lang=enhash=7FFEB296D71C2EE923DC5D1F3EC01024 |
| **Vanguard (Cronfeydd ETF Vanguard)** | Global proxy voting policy<br>A guide to engaging with Vanguard |
| **Lazard** | Sustainable Investment and ESG Integration Policy |
| **Lumyna Marshall Wace** | https://cdn.mwam.com/download/MW_Engagement_Policy_Jan_2022.pdf |
| **JP Morgan** | https://am.jpmorgan.com/content/dam/jpm-am-aem/global/en/institutional/communications/lux-communication/corporate-governance-principles-and-voting-guidelines.pdf<br>Engagement-and-proxy-voting-statement.pdf |
| **BlackRock (gan gynnwys Cronfeydd ETF iShares)** | https://www.blackrock.com/corporate/literature/publication/blackrock-active-investment-stewardship-engagement-and-voting-guidelines.pdf |
| **SCOR** | SCOR IP_Engagement Policy_052024_EN_0.pdf |
| **T Rowe Price** | https://www.troweprice.com/content/dam/trowecorp/Pdfs/esg/proxy-voting-guidelines-TRPA.pdf |
| **Neuberger Berman** | https://www.nb.com/handlers/documents.ashx?id=aba155d6-e78e-4668-800f-fa69f05d45d0name=Stewardship%20and%20Engagement%20Policy |
| **Oaktree** | https://www.oaktreecapital.com/docs/default-source/default-document-library/esg-policy-2024.pdf |
| **CBRE** | https://www.cbreim.com/-/media/project/cbre/bussectors/cbreim/home/about-us/sustainability/cbreim-global-esg-policy.pdf |